OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 142

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

## RHAN 3

### DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2018

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018**

**5.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 6.

**6.** Ym mharagraff 16 o Atodlen 3 (cyfrifo incwm)—

(a) yn lle is-baragraff (3) rhodder—

"(3) Y flwyddyn ariannol gymwys yw BG os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(a) pan fo P yn un o ddau berson y cyfrifir cyfanred eu hincymau gweddilliol o dan baragraff (b)(i) neu (ii) o Restr A ym mharagraff 3(1), fod cyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai na chyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BF-1, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, fod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF-1.";

(b) yn lle is-baragraff (5) rhodder—

"(5) Pan fo'r is-baragraff hwn yn gymwys—

(a) y flwyddyn ariannol gymwys yw BG os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

(i) pan fo P yn un o ddau berson y cyfrifir cyfanred eu hincymau gweddilliol o dan baragraff (b)(i) neu (ii) o Restr A ym mharagraff 3(1), fod cyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai na chyfanred incymau gweddilliol P a'r person arall ar gyfer BF, neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, fod incwm gweddilliol P ar gyfer BG yn debygol o fod o leiaf 15% yn llai nag incwm gweddilliol P ar gyfer BF;

(b) fel arall, y flwyddyn ariannol gymwys yw BF."

(**1**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.